**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**10 IONAWR 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 10 Ionawr 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Paul Cunningham, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Mike Allport a Gladys Healey

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorwyr Glyn Banks a Gina Maddison - eitem 6.1 ar y rhaglen (FUL/000246/23)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Rheolwr Mwynau a Chynllunio Gwastraff, Uwch Swyddogion Cynllunio (Mwynau a Gwastraff), Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 44. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 45. SYLWADAU HWYR

Dim.

## 46. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir ac fe'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Dave Hughes a Mike Peers.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 47. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

**48. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel maent ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**49. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.55pm)

**…………………………**
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yma: https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 10 IONAWR 2024

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/000246/23 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais llawn - Cadw a defnyddio strwythurau, offer a datblygiadau ategol presennol (yn cynnwys mynediad ffordd a thirlunio) gan ffurfio terfynell nwy'r Parlwr Du ar gyfer cludo carbon deuocsid a dymchwel/cael gwared ar strwythurau diangen yn y derfynell; adeiladu a defnyddio'r seilwaith newydd sydd ei angen ar gyfer gwasanaeth carbon deuocsid yn nherfynell nwy'r Parlwr Du; cadw a defnyddio'r bibell nwy 20 modfedd o ran diamedr bresennol, y pibellau cyddwysiad a cheblau cysylltiedig o derfynell nwy'r Parlwr Du at y Marc Distyll Cymedrig ar gyfer cludo carbon deuocsid a gweithgareddau cysylltiedig; cael gwared ar fan caeedig y falf cau i lawr sy'n gysylltiedig â'r bibell nwy 20 modfedd o ran diamedr bresennol o derfynell nwy'r Parlwr | Siaradodd Andrew Gwenter (yr ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Cododd y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Lleol) rai materion o ran y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar Gytundeb Cyfreithiol Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Du at y Marc Distyll Cymedrig a gwaith adfer priodol; adeiladu a defnyddio dau gysylltiad ffeibr optig a thrydan 33kV o derfynell nwy’r Parlwr Du at y marc Distyll Cymedrig; ac adeiladu a defnyddio dau giosg a ffens gysylltiedig o’u hamgylch ar hyd llinell y cysylltiadau ffeibr optig a thrydan 33kv arfaethedig. | | |
| FUL/000633/23 | Cyngor Cymuned Helygain<br><br>Cyngor Cymuned Brynffordd<br><br>Cyngor Tref y Fflint<br><br>Cyngor Cymuned Ysgeifiog | Cais llawn - Adeiladu a gweithredu’r tair Gorsaf Falf wedi’u Blocio yn Cornist Lane ger y Fflint, Pentre Helygain ac ar dir ger Racecourse Lane, Babell, Sir y Fflint mewn cysylltiad â chynnig piblinell carbon deuocsid HyNet. | Darllenwyd datganiad ar ran Geoff Saynor (Preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Andrew Gwenter (yr ymgeisydd) o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |